CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 16ed CHWEFROR 2021

PRESENNOL:
Dim Cyfarfod wyneb yn wyneb oherwydd Coronafeirws. (Y Clerc mewn cysylltiad a`r Cadeirydd a`r Cynghorwyr trwy ebost neu ffon.)

YMDDIHEURIADAU:

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Cyng H G Owen. Rhif 9.

CAEL COFNODION 19eg IONAWR 2021 YN GYWIR.
I`w sganio`n gyflum pan fydd y cyfarfodydd yn ailgychwyn.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. HHP/2021/23. Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn:-
   Bryntwrog Isaf, Tynlon.
   Dim gwrthwynebiad. Cynnig Cyng H G Owen, eilio D T Roberts.

PENDERFYNIADAU.

2. Yr Arolygaeth Cynllunio.
   Cais gan Horizon Pwer Niwclear am orchymyn yn rhoi caniatad datblygu ar gyfer Wylfa Newydd Tynnu`r cais yn ol. Derbyn.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

3. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.
   FW: Datganiad - Byddwn yn gwneud yr hyn sydd orau i ysgolion Mon. Meddai Arweinydd y Cyngor.
   Disgyblion cyfnod sylfaen yn dychwelyd i addysg wyneb i wyneb yn raddol o Chwefror 22ain.
   Coronafirws yn uchel ar yr Ynys ar hyn o bryd. Bydd ystyried i`r sefyllfa diogelwch y Staff a`r Disgyblion yw`r brif flaenoriaeth. https://llyw.cymru/coronafeirws.
   Nid oedd unrhyw farn gan y Cynghorwyr. Derbyn.

4. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.
   Cyfarfod Rhithiol - Zoom - cais am wybodaeth.
   Edrych a yw`r Cyngor yn defnyddio Zoom ar gyfer cyfarfodydd ai peidio?
   Y Cyngor ddim yn defnyddio Zoom. Nid yw`r wefan gan rhai o`r Cynghorwyr. Gadael.

5. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.
   FW: Datganiad - Gwasanaeth Tai i adeiladu ar gynnydd rhagorol.
   Bydd Gwasanaeth Tai Ynys Mon yn bwrw ymlaen i ddablygu strategaeth pum mlynedd er mwyn darparu mwy o gartrefi o ansawdd ar gyfer tenantiaid a thrigolion 2022 - 27.
   Cadw y wybodaeth mewn golwg a derbyn.

GOHEBIAETH (ARALL)

6. Llywodraeth Cymru.
   Archwiliad Allanol.
   LLunio a Chyhoeddi cyfrifon Ariannol ar gyfer 2020 - 21.
   Gan ddilyn amserlen 2019 - 20 bydd yn ofynnol llunio ac ardystio cyfrifon drafft erbyn 31ain Awst 2021 a chyhoeddi cyfrifon terfynol wedi`u harchwilio erbyn 30ain Tachwedd 2021.

Derbyn y wybodaeth.

7. Virginia Crosbie AS. Ynys Mon.
   Cysylltu os oes angen rhywbeth.
   Cofrestru am benodiad meddygfa, cael ei cynnal ar y ffon. Derbyn. Cadw mewn golwg.

RHODDION

8. Dim.

PLWYFOL.

9. Cyng D T Roberts. Adolygu Cyflog y Clerc.
   Cafwyd awgrymiad gan Cyng D T Roberts y dylai fod ychwanegiad. Dywedodd Cyng J E Lewis nad oes digon o wybodaeth wedi ei rhoi, ail ystyried. Cyng R M Roberts yn cytuno i`r cais a codiad i`r cyflog. Cyng E Williams o`r farn bod angen ei godi bellach. Beth yw`r cyflog ar hyn o bryd?.
   Ail rhoi ar rhaglen mis Mawrth.

10. Agoriad Porth Penrhos, Tynlon.
    Gwaith wedi ei wneud ac yn cael ei ddefnyddio.
    Dim penderfyniad wedi ei wneud gan yr Adran Cynllunio.
    Y Cyngor wedi gofyn am eglurhad.

11. Arolwg Cyflymder Tramwy trwy Llynfaes. Daniel M Jones.
    Wedi cael graff o`r cyflymder. Mae`r astydiaeth wedi ei gwblhau nid oes llawer o oryrru. Dim mwy ellir ei wneud cadw y cyflymdra i 40mya.

12. Llwybr PenyBryn, Tynlon yn dod allan yn Eirianellt Groes (lon Bryntwrog) angen sylw.
    Mae yn annodd ei gerdded a`r camfeydd angen cynhaliaeth. Cysylltu a`r Cyngor Sir.

MATERION ARIANNOL:

13. Cyfrif Rhedegol £13,384.84

TALIADAU:

14. Clerc £220.83.

Er nas oes cyfarfod yn bodoli mae yn rhaid dan rheol dalu y dyledion i gyd.

CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 16ed MAWRTH 2021

PRESENNOL:
Dim Cyfarfod wyneb yn wyneb oherwydd Coronafeirws. (Y Clerc mewn cysylltiad a`r Cadeirydd a`r Cynghorwyr trwy ebost neu ffon.)

YMDDIHEURIADAU:

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Cyng H G Owen Rhif 12.

CAEL COFNODION 16eg CHWEFROR 2021 YN GYWIR.
I`w sganio`n gyflum pan fydd y cyfarfodydd yn ailgychwyn.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.
1. Dim.

PENDERFYNIADAU.
2. FPL/2020 /128. Cais llawn ar gyfer creu mynedfa newydd i gerbydau.
   Penrhos, Tynlon. Caniatad.
   Cyngor ddim yn hapus a`r canlyniad. Gwaith wedi ei wneud cyn cael caniatad. Disgwyl am eglurhad gan y Cyngor Sir.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)
3. Rheolwr Iechyd yr Amgylched. Trystan Owen.
   Deddfwriaeth ddi-fwg yng Nghymru. 1af Mawrth 2021.
   Gyfraith ddi-fwg bresennol yn cael ei hymestyn i gynnwys mwy o leoedd a lleoliadau yng *Nghymru.*
   Sicrhau Cydymffurfiaeth.
   Bob Maes Chwarae Cyhoeddus fod yn ddi-fwg gydol yr amser.
   y ddeddfwriaeth yn ofynnol i`r rheolwr neu`r person cyfrifol gymryd camau rhesymol atal ysmygu.
   Arwyddion.
   Arwydd i *gynnwys.*
   Darlun Graffig clir o sigaret yn llosgi o fewn ylch gyda bar ar draws y cylch sy`n croesi symbol y sigaret.
   Dyletswydd i atal ysmygu a gorfodi hynny.
   Sawl sydd yn Rheoli neu sy`n ymwneud a rheoli.
   Hysbysiad cosb penodedig o £100 (£75 os yn talu yn gynnar)
   Methu a chydymffurfio a`r dyletswydd i atal ysmygu mewn Meysydd Chwarae Cyhoeddus
   Euogfran Ddiannod ar hyn o bryd yn £2,500.
   Yr hyn y cynghorir y dylem ei wneud ar y lleiaf.
   Arddangos Arwyddion "Dim Ysmygu" fel y nodir uchod.
   Deall y ddyletswydd i atal ysmygu a chymryd camau rhesymol i atal ysmygu yn yr ardal ddi-fwg.
   Canllawiau pellach. https://llyw.cymru/ysmygu.
   Derbyn y ddeddf. Rhaid hysbysu Mrs Gaynor Jones (Cae Chwarae Bodffordd)

4. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.
   FW: Datganiad - Cerydau Graeanu newydd yn profi ei gwerth y gaeaf hwn.
   Buddsoddiad y Cyngor Sir £280.000 er mwyn uwchgraddio ei loriau graeanu.

Dwynwen Ardal De, Cybi Ardal Orllewin, Eilian Gogledd Gorllewin, Alaw Gogledd Dwyreiniol, Seiriol Dwyreiniol Ynys Mon.
Petai un cerbyd yn torri i lawr mae chweched lorri o enw Mona.
Rhagor o wybodaeth Lee Jones, Uned Gyfathrebu 01248 752128.
Derbyn y wybodaeth. Nid oes llawer o rhew ac eira wedi bod y gaeaf hwn?

GOHEBIAETH (ARALL)

5. Clercod a Cynghorau Uniongyrchol. Cylchgrawn. Derbyn.

RHODDION

6. NSPCC.
7. Ty Gobaith. Conwy.
8. Cerebal Palsy Cymru.
9. Elusen Ambiwlans Awyr Cymru. Apel Argyfwng.
10. Radio Ysbyty Gwynedd.
11. *Hosbis Dewi Sant (Caergybi)*
    Cafwyd barn gan mwyafrif o`r Cynghorwyr i gyd i rhoi cydnabyddiaeth.
    Bu cynnig i rhoi £100 yr un i dri fudiad ond nid oedd neb yn eilio am y rheswm na £200 mae y Cyngor yn rhoi yn flynyddol.
    Ar ol Cynigion y Cynghorwyr pasiwyd i rhoi £50.00 yr un i NSPCC, Ty Gobaith Conwy, Elusen Ambiwlans Awyr Cymru a Hosbis Dewi Sant (Caergybi) Cynnig Cyng H G Owen, eilio Cyng D T Roberts.

PLWYFOL.

12. Adolygu Cyflog y Clerc.
    Pasiwyd y godi cyflog i £250 y mis (£3,000 y flwyddyn) + Treth Incwm.
    Bydd yn cychwyn 1af Ebrill 2021.
    Cynnig Cyng E Williams, eilio Cyng R M Roberts.

13. Nid oes angen talu am ystafell i gyfarfodydd eleni oherwydd y Covid 19.

MATERION ARIANNOL:

14. Cyfrif Rhedegol £13,864.01. (Agor Bedd Gareth Owen £400.00 a Mrs Gladys Owen £300.00)

TALIADAU:

15. Clerc £220.83. Clirio Mynwent Gymunedol £120.00. Treth Incwm 4. £165.60. Gweinyddu (3mis) £124.72

Er nas oes cyfarfod yn bodoli mae yn rhaid dan rheol dalu y dyledion i gyd.